Polisi Defnydd Derbyniol o Dechnoleg Ddigidol

Cyfeirnod y Polisi IT001 V1.0
Dyddiad dod i rym: 16 Hydref 2019
Diwygiwyd diwethaf: 16 Hydref 2019
Cyfnod adolygu: Blynyddol
Dyddiad adolygu: Medi 2020
Corff cymeradwyo: Uwch Dîm Rheoli

Perchennog y Polisi: Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredol
Awdur y Polisi: Prif Swyddog Digidol

Prifysgol Abertawe
Swansea University

## 1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn nodi'r amodau ar gyfer defnyddio Technoleg Ddigidol Prifysgol Abertawe ("Technoleg Ddigidol y Brifysgol"). Nod y polisi yw helpu i sicrhau bod Technoleg Ddigidol y Brifysgol yn cael ei defnyddio'n rhydd ond yn ddiogel, yn gyfreithiol, yn debyg ac yn ystyrlon o eraill.

Mae'n ofynnol i holl ddefnyddwyr Technoleg Ddigidol y Brifysgol gydymffurfio â'r polisi hwn.

## 2. Diben

Mae'r polisi hwn yn diffinio defnydd derbyniol o Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol.

## 3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn, ei egwyddorion a'i rwymedigaethau yn berthnasol i'r canlynol:

- Holl ddefnyddwyr Technoleg Ddigidol y Brifysgol
- Holl Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol
- Holl ddyfeisiau sy'n defnyddio Technoleg Ddigidol y Brifysgol
- Technoleg Ddigidol a weinyddir ar ran y Brifysgol
- Holl gyfathrebiadau electronig sy'n bodoli, sy'n cael eu rhannu, eu hanfon neu eu derbyn gan ddefnyddio Technoleg Ddigidol y Brifysgol
- Mynediad at y rhyngrwyd a ddarperir drwy Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol
- Cyfryngau cymdeithasol a weithredir ar ran y Brifysgol neu sy'n cyfeirio ati
- Defnyddwyr newydd o Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol, nad ydynt wedi'u diffinio'n benodol o bosib.

## 4. Eithriadau

Pan fydd defnydd academaidd cyfreithlon o Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol yn codi, a allai fel arall gael ei ystyried yn annerbyniol yn y polisi hwn:

- Rhaid cael cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol
- Rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Bwyllgor Moeseg y Coleg perthnasol
- Rhaid cael awdurdodiad penodol gan Bennaeth y Coleg perthnasol
- Rhaid rhoi mesurau diogelu digonol ar waith i sicrhau bod y cynnwys ar gyfer y diben awdurdodedig yn unig, a'i fod yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n gyfreithlon, yn diogelu unigolion ac yn sicrhau na pheryglir Technoleg Ddigidol y Brifysgol
- Dylid rhoi gwybod i'r Prif Swyddog Digidol i helpu i leihau'r cyfyngiadau oherwydd rheolau presennol y defnydd awdurdodedig

Dylid cael cyngor gan y Prif Swyddog Digidol yn y lle cyntaf ar gyfer eithriadau eraill.

**5. Dim atebolrwydd**

Y defnyddiwr sy'n llwyr gyfrifol am ddefnyddio Technoleg Ddigidol y Brifysgol. Ni fydd y Brifysgol yn atebol am golled, difrod neu anghyfleustra sy'n codi'n uniongyrchol o'r defnydd o Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol. Er y gwneir pob ymdrech i gynnal gwasanaethau, cyfleusterau ac uniondeb yr wybodaeth a'r feddalwedd, nid yw'r Brifysgol yn derbyn cyfrifoldeb am ddiffyg gweithredu cyfleusterau a/neu offer digidol, nac am golled data neu feddalwedd neu dorri mecanweithiau diogeledd ac eithrio i'r graddau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

**6. Defnyddio mewn Ymarfer Proffesiynol**

Caniateir defnyddio Technoleg Ddigidol y Brifysgol i fynd ar drywydd ymarfer proffesiynol sy'n gysylltiedig ag aelod staff neu rôl myfyriwr a/neu faes astudio, ar yr amod nad oes gwrthdaro buddiannau ac y caniateir defnydd o'r fath yn amodau'r holl drwyddedau a chontractau perthnasol.

**7. Defnydd Preifat**

Y prif ddiben y caiff Technoleg Ddigidol y Brifysgol ei darparu yw galluogi myfyrwyr i gwblhau eu hastudiaethau ac i staff ymgymryd â'u gwaith. Serch hynny, caniateir defnydd personol ar yr amod:

- Bod y defnydd yn gymesur
- Nad yw'n amharu ar berfformio dyletswyddau'r Brifysgol nac yn gwrthdaro â nhw nac yn cymryd blaenoriaeth drostynt
- Nad yw'n gwrthod y gwasanaeth i ddefnyddwyr eraill nac yn ei rwystro
- Nad yw'n peryglu enw da'r Brifysgol

**8. Defnydd Masnachol Personol**

Mae angen caniatâd penodol ymlaen llaw gan y Prif Swyddog Gweithredu a Chofrestrydd cyn defnyddio Technoleg Ddigidol y Brifysgol i wneud gwaith masnachol ar gyfer cyrff allanol yn bersonol ac nid fel rhan o ddyletswyddau'r Brifysgol neu sy'n gysylltiedig ag ymarfer proffesiynol perthnasol.

**9. Cynrychioli'r Brifysgol ar y Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae'n ofynnol i ddefnyddwyr ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn unol â chanllawiau cyfryngau cymdeithasol y Brifysgol.

**10. Mynediad at y rhyngrwyd drwy Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol**

Nid oes gan y Brifysgol reolaeth dros wybodaeth y gellir ei chyrchu drwy'r rhyngrwyd ac nid yw'n gyfrifol am ddatguddiad diofal deunydd a gyrchir gan ddefnyddwyr rhyngrwyd sy'n defnyddio Technoleg Ddigidol y Brifysgol a allai fod yn sarhaus.

**11. Ymddygiad Derbyniol**

Rhaid i ddefnyddwyr ddefnyddio Technoleg Ddigidol y Brifysgol mewn ffordd sy'n ystyrlon o eraill, fel bod yr holl ddefnyddwyr yn mwynhau awyrgylch i weithio ac astudio. Rhaid i ddefnyddwyr ymddwyn mewn ffordd nad yw'n cael effaith negyddol na gormodol ar eraill, nac yn torri'r polisi hwn a pholisïau eraill y Brifysgol.

**12. Diogelu Data**

Rhaid i ddefnyddwyr sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn briodol ac yn gyson yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth Diogelu Data gyffredinol a Pholisi Diogelu Data penodol y Brifysgol, gan gynnwys cydweithio â gofynion mynediad at wrthrych y data.

**13. Rhyddid Gwybodaeth**

Bydd defnyddwyr sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol y sicrhau bod gwybodaeth y Brifysgol yn cael ei thrin mewn modd sy'n gyson â darpariaethau'r ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys cydweithio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

**14. Cyfrifoldeb dros Ddiogelwch**
Rhaid i ddefnyddwyr sicrhau bod dyfeisiau sy'n defnyddio Technoleg Ddigidol y Brifysgol:

- Wedi'u diogelu gan gyfrinair neu'n defnyddio nodweddion diogelwch cyfwerth
- Wedi'u hallgofnodi neu eu cloi pan nas defnyddir
- Wedi'u hamgryptio, eu cloi neu eu rheoli o bell a'u galluoedd clirio o bell wedi'u galluogi

**15. Cyfrifon Defnyddwyr**
Darperir cyfrifon i ddefnyddwyr y Brifysgol at ddibenion astudio a gweithio. Nid ydynt yn breifat. Ystyrir cyfrifon defnyddwyr sydd wedi'u creu gan staff yn annibynnol yn bennaf ar gyfer cynnal busnes y Brifysgol yn Gyfrifon Defnyddwyr y Brifysgol. Ni chaniateir i staff ddefnyddio cyfrifon sy'n breifat yn bennaf i gynnal busnes y Brifysgol.

Mae pob cyfathrebu electronig sy'n defnyddio Cyfrifon Defnyddwyr y Brifysgol yn eiddo i'r Brifysgol (gan gynnwys eu cynnwys a/neu atodiadau yn unol â Pholisi Eiddo Deallusol (Staff) a Pholisi Eiddo Deallusol (Myfyrwyr)) ac ystyrir eu bod yn cynrychioli cyfathrebu sy'n cael ei anfon neu ei dderbyn ar ran y Brifysgol.

Gellir datgelu negeseuon electronig mewn achosion cyfreithiol, a gellir eu hadfer hyd yn oed pan fydd defnyddiwr wedi'u dileu.

Rhaid i ddefnyddwyr:
- Gymryd pob rhagofal rhesymol i ddiogelu eu manylion yn y Brifysgol (er enghraifft, cyfrinair, cerdyn clyfar neu fecanwaith diogelwch arall)
- Peidio â gadael i unrhyw un arall ddefnyddio ei fanylion Prifysgol unigol
- Osgoi defnyddio eu cyfrineiriau yn y Brifysgol ar gyfer gwefannau, systemau neu wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Brifysgol
- Peidio â rhannu cyfrineiriau â neb
- Newid cyfrineiriau os yw'n bosibl bod rhywun arall wedi'u darganfod

**16. Mynediad Anawdurdodedig**
Ni ddylai defnyddwyr ddefnyddio na chael mynediad at gyfrif unigolyn arall heb y caniatâd priodol. Yn benodol:

- Ni chaniateir mynediad anawdurdodedig (neu ymgais at gael mynediad anawdurdodedig) i Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol
- Ni chaniateir ichi ganiatáu, annog neu alluogi eraill i gael neu ymgeisio i gael mynediad anawdurdodedig at Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol
- Rhaid i ddefnyddwyr gael cymeradwyaeth gan y Prif Swyddog Gweithredol cyn ychwanegu neu gysylltu gweinyddion a seilwaith rhwydwaith newydd i seilwaith digidol presennol y Brifysgol

**17. Awdurdod i gael mynediad at gyfrifon**
Efallai y bydd yn ofynnol i'r Brifysgol gael mynediad at gyfrif defnyddiwr unigol mewn amgylchiadau eithriadol. Er enghraifft, absenoldeb sydyn neu annisgwyl, i fynd i'r afael â phroblemau o ran cydymffurfio â'r gyfraith neu i ddiwallu angen cyfreithiol y Brifysgol. Rhaid i aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, Pennaeth Coleg neu Gyfarwyddwr Uned Gwasanaeth Proffesiynol awdurdodi mynediad o'r fath.

**18. Trwyddedau meddalwedd ac atal lladrad**
Rhaid i ddefnyddwyr sicrhau bod y feddalwedd maen nhw'n ei defnyddio wedi'i thrwyddedu'n gywir.

Pan fydd defnyddiwr yn gosod meddalwedd a ddarperir yn ganolog, mae'r weithred o lawrlwytho yn nodi bod y defnyddiwr yn derbyn amodau'r drwydded sy'n berthnasol i'r feddalwedd honno. Rhaid i'r defnyddiwr gydymffurfio â'r amodau hynny.

Yn yr un modd, pan fydd meddalwedd wedi'i gosod o rywle arall, mae'r weithred o lawrlwytho yn nodi bod y defnyddiwr yn derbyn amodau trwydded y feddalwedd. Cyn gosod meddalwedd o'r fath, rhaid i'r defnyddiwr sicrhau nad yw amodau'r drwydded yn gwrthdaro â chontractau, polisïau neu fuddion meddalwedd presennol y Brifysgol.

Rhaid i'r holl ddefnyddwyr gymryd gofal rhesymol i atal copïo a defnyddio meddalwedd a dogfennaeth mewn modd anghyfreithlon.

Ni ddylai defnyddwyr gyflwyno meddalwedd neu ddeunydd arall sy'n gofyn am drwydded pan nad oes trwydded ddilys ar waith.

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i archwilio dyfeisiau at ddibenion rheoli asedau ac i wirio bod trwyddedau perthnasol ar waith.

Caiff meddalwedd neu galedwedd neu gopïau anghyfreithlon o ddogfennaeth eu dileu.

**19. Monitro**

Gall y Brifysgol fonitro'r defnydd unigol o Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol pan fydd hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu i ddiogelu ei buddiannau cyfreithlon a buddiannau eraill. Mae hyn yn cynnwys canfod gweithgarwch troseddol, torri rhwymedigaethau o ran seiberddiogelwch, rheoli asedau, parhad busnes, datrys problemau, defnydd annerbyniol a dibenion cyfreithlon eraill.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cadw'r hawl i archwilio a/neu ddileu  eitemau o offer cyfrifiadurol sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith.

**20. Cyfrifoldeb Rheolwyr**

Mae gan reolwyr gyfrifoldeb penodol dros sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n deg.

**21. Goblygiadau torri'r polisi hwn**

Gall y Brifysgol ymchwilio i achosion o dorri'r Polisi hwn o dan Ordinhad Ymddygiad a Chamau Disgyblu'r Brifysgol. Gall y Brifysgol hefyd gymryd y camau gweithredu canlynol mewn ymateb i achosion o dorri'r Polisi hwn:

- Tynnu mynediad at Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol yn ôl
- Datgysylltu a chymryd offer yn ôl
- Dechrau gweithdrefnau ymddygiad a/neu ddisgyblu perthnasol ar gyfer staff a myfyrwyr
- Cyfeirio achosion at yr heddlu neu awdurdod perthnasol arall

Pan fydd achos o dorri'r polisi hwn yn arwain at ei gyfeirio at yr heddlu neu awdurdod perthnasol arall, bydd y Brifysgol yn cydweithio â'r awdurdodau sy'n ymchwilio ac yn datgelu copïau o ddata perthnasol sydd wedi'i storio, cofnodion perthnasol a chaledwedd sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad i awdurdodau yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol yr awdurdod i atal mynediad defnyddiwr at Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol dros dro, pan fydd seiliau rhesymol dros amau bod y defnyddiwr wedi torri'r polisi hwn, nes bod ymchwiliad.

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i rwystro, datgysylltu neu atal gweithgareddau os yw'n ystyried eu bod yn defnyddio Technoleg Ddigidol y Brifysgol mewn modd annerbyniol. Mae defnydd annerbyniol o Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Bod yn fygythiol, yn ddifenwol, yn anweddus, yn anllad, yn sarhaus neu'n aflonyddu ar eraill
- Cyflawni neu hyrwyddo gweithred anghyfreithlon
- Peidio â pharchu urddas a phreifatrwydd eraill neu beidio ag ystyried sut y gallai ei ymddygiad ar-lein effeithio ar eraill
- Hyrwyddo gweithgareddau sy’n debygol o ddenu pobl at derfysgaeth neu ideoleg eithafol sy’n mynd yn groes i rwymedigaethau a pholisi ATAL y Brifysgol
- Creu neu ddarlledu cyfathrebu anghyfreithlon o unrhyw fath, gan gynnwys er nad yw'n gyfyngedig i'r rhain, fygythiadau o drais, anlladrwydd, pornograffi plant neu gyfathrebu anghyfreithlon arall
- Hyrwyddo gwahaniaethu ar sail oedran, rhyw, anabledd, ailgyfeirio rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu nodwedd warchodedig arall
- Gweithredu mentrau masnachol nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan y Brifysgol neu ymgymryd â thrafodion personol a busnes anawdurdodedig neu anghyfreithlon
- Niweidio enw da’r Brifysgol, ei myfyrwyr neu ei staff
- Niwed corfforol neu ddileu Technoleg Ddigidol y Brifysgol heb ganiatâd
- Torri hawlfraint neu ddosbarthu deunyddiau hawlfraint, defnyddio meddalwedd heb drwydded, neu gyrchu cynnyrch trwyddedig nad oes gan ddefnyddwyr caniatâd ar eu cyfer
- Gwrthod neu darfu ar fynediad eraill at Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol
- Defnydd anawdurdodedig o Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol
- Peryglu diogelwch yn bwrpasol
- Spamio eraill
- Caniatáu a galluogi eraill i gael mynediad anawdurdodedig at gyfrif y Brifysgol nad yw’n eiddo iddyn nhw
- Defnydd personol anghymesur
- Personadu neu ddwyn manylion adnabod unigolyn arall

Os oes amheuon gan ddefnyddwyr ynghylch yr hyn sy’n cyfrif fel defnydd derbyniol, dylid ceisio cyngor ac arweiniad gan eu Rheolwr Llinell.

**Hanes y Polisi**

Mae'r polisi hwn yn amlinellu amodau defnyddio cyfleusterau Technoleg Ddigidol Prifysgol Abertawe ac mae'n disodli unrhyw bolisi'r Brifysgol sy'n bodoli am y pwnc hwn.

| Dyddiad Adolygu | Awdur | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 12 Awst 2019 | Prif Swyddog Digidol | Drafft |
| 16 Hydref 2019 | Prif Swyddog Digidol | Cymeradwywyd v1.0 |
| | | |

**Atodiad 1**

| Tymor | Diffiniad |
|---|---|
| Technegol Ddigidol y Brifysgol | Mae Technoleg Ddigidol y Brifysgol yn cwmpasu'r diffiniad ehangaf o systemau, cymwysiadau a seilwaith digidol a thechnoleg gwybodaeth y Brifysgol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br>• Caledwedd cyfrifiadurol, boed yn sefydlog neu'n gludadwy, gan gynnwys cyfrifiaduron personol, desgiau gwaith, gliniaduron, tabledi, PDAs, dyfeisiau symudol, ffonau clyfar, gweinyddwyr, argraffwyr, sganwyr, gyriannau disg, monitorau, bysellfyrddau a dyfeisiau pwyntio<br>• Isadeiledd rhwydwaith, gan gynnwys isadeiledd diriaethol boed â gwifrau neu'n ddiwifr, gweinyddwyr rhwydwaith, muriau gwarchod, switshis a llwybryddion<br>• Gwasanaethau rhwydwaith, gan gynnwys mynediad at y rhyngrwyd, gwasanaethau ar y we, band-eang, e-bost, diwifr, negeseuo, storio ar y rhwydwaith, gwasanaethau ffôn a ffacs, teledu cylch cyfyng (CCTV) a rheoli drysau a mynediad. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau â'r rhwydwaith mewn Neuaddau Preswyl, Wi-Fi ar y campws, cysylltedd â'r rhyngrwyd o gyfrifiaduron y Brifysgol<br>• Meddalwedd a chronfeydd data, gan gynnwys rhaglenni, rhaglenni ar y we, amgylchoedd dysgu rhithwir, fideo-gynadledda, labordai iaith, offer meddalwedd, gwasanaethau e-lyfrgell, cyfnodolion electronig ac e-lyfrau<br>• Cyfryngau rhwydweithio cymdeithasol neu wasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol<br>• Technolegau clyweledol ac addysgu<br>• Gwasanaethau ar-lein a drefnwyd gan y Brifysgol, megis Office 365, e-bost neu  adnoddau ar-lein Jisc<br>• Manylion TGCh, megis y defnydd o'ch manylion mewngofnodi Prifysgol, neu eitem arall (cyfeiriad e-bost, cerdyn clyfar, dongl) a gyhoeddwyd gan y Brifysgol i brofi'ch hunaniaeth wrth ddefnyddio cyfleusterau a/neu offer TGCh<br>• Technoleg ddigidol a brynir ar ran y Brifysgol neu a ddefnyddir yn bennaf neu'n sylweddol at ddibenion y Brifysgol. |
| Dyfeisiau symudol | • Offer cyfrifiadura llaw neu symudol arall sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn cyrchu, cadw neu brosesu data'r Brifysgol, gan gynnwys (er nad yn gyfyngedig i) cyfrifiaduron gliniadur, tabledi a ffonau symudol. Mae hyn hefyd yn cynnwys technolegau clyweledol ac addysgu |
| Dyfeisiau Cadw Cludadwy | • Eitemau y gellir eu cludo'n rhwydd sy'n cael eu defnyddio i gadw data ar ffurf electronig (boed dros dro neu'n barhaol), gan gynnwys cofau bach ("gyriannau flach"), cryno ddisgiau (CDs a DVDs), gyriannau allanol plygio a chwaraewyr cyfryngau (chwaraewyr mp3) |
| Y cyfryngau cymdeithasol | • At ddibenion y polisi hwn, diffinnir cyfryngau cymdeithasol fel dull cyfathrebu rhyngweithiol ar-lein sy'n annog cyfranogaeth a chyfnewid. Mae enghreifftiau cyfredol yn cynnwys Twitter, Snapchat, Facebook, YouTube, Skype, Instagram, Pinterest, Yammer a LinkedIn ond mae'r polisi yn cynnwys hysbysfyrddau negeseuo ac ystafelloedd sgwrsio allanol ar y we hefyd. Mae unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol a gynhelir ar barth y Brifysgol o fewn cwmpas y polisi hwn. |

| | |
|---|---|
| Defnyddwyr | Unrhyw un sy’n defnyddio, neu sydd â mynediad at Dechnoleg Ddigidol y Brifysgol.Yn ogystal â staff a myfyrwyr, gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol:<br>• Ymwelwyr â gwefan y Brifysgol, a phobl sy'n cyrchu gwasanaethau ar-lein y Brifysgol oddi ar y campws<br>• Partneriaid allanol, cydweithredwyr, contractwyr, gweithwyr asiantaeth, gweithwyr achlysurol ac asiantau sy'n gweithio ar y safle sy'n defnyddio rhwydwaith y Brifysgol, neu sy'n gweithio oddi ar y safle drwy gyrchu systemau'r Brifysgol<br>• Tenantiaid y Brifysgol sy'n defnyddio cyfrifiaduron, gweinyddwyr neu rwydweithiau'r Brifysgol<br>• Ymwelwyr sy'n defnyddio Wi-Fi y Brifysgol<br>• Myfyrwyr sy'n ymgymryd â lleoliadau neu brofiad gwaith<br>• Defnyddwyr o sefydliad arall sy’n defnyddio Eduroam neu Govroam |
| Manylion y Brifysgol | • Ffordd o gael mynediad at Wasanaethau TGCh y Brifysgol, er enghraifft enw defnyddiwr a chyfrinair, rhif adnabod personol, cyfeiriad e-bost, cerdyn clyfar neu galedwedd hunaniaeth arall |